# PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 10 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.A. Cave, A.M. Collins, C.M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr G.M. Ball a H.M. Payne.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant personol yn Eitem 5 ar yr Agenda – Diweddariad ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby nifer o aelodau o'r teulu a oedd yn derbyn cymorth Teleofal ac un aelod o'r teulu a oedd yn derbyn pecyn gofal. Roedd gan y Cynghorydd Lloyd-Selby oddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â gwasanaethau Teleofal a Phecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod am yr eitem.

EITEM AGENDA 4. CYTUNDEB RHEOLI HAMDDEN – ADRODDIAD PERFFORMIAD BLWYDDYN 10 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Bod perfformiad y Cytundeb Hamdden Etifeddol ar gyfer Blwyddyn 10 yn cael ei nodi a'i gymeradwyo.

(2) Bod adroddiad perfformiad Blwyddyn 11 ar gyfer y Contract Rheoli Hamdden yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ddiwedd 2023.

(3) Y dylid nodi'r camau gweithredu arfaethedig i ymgorffori'r Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill o'r contract.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a pherfformiad y contractwr yn ystod y cyfnod adrodd.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn cael gwybod am gynnydd y Contract Rheoli Hamdden yn flynyddol.

(3) Sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymateb i ganfyddiadau adroddiad Archwilio Cymru ac yn arbennig i sicrhau bod y gwaith sydd ar y gweill ar y Cytundeb Rheoli Hamdden yn cryfhau gweithrediad yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy fel y manylir arno yn adroddiad Archwilio Cymru.

EITEM AGENDA 5. DIWEDDARIAD AR FWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG (CGC) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud a'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg, yn enwedig y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar gyfer pobl leol.

(2) Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad blynyddol pellach ar waith y Bwrdd ym mis Ionawr 2024.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad i godi ymwybyddiaeth o waith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg a sicrhau cysylltiadau ag agenda ehangach Awdurdod Lleol Bro Morgannwg a blaenoriaethau allweddol.

(2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i fod yn wybodus ac yn ymgysylltu â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn flynyddol.